# Cyfrifiad 2021

## Papur Pwnc Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Cynhwysiad

Rhagfyr 2024

**Awdur:** Tîm Ymchwil a Pherfformiad, Cyngor Sir Ceredigion
**Dyddiad:** Rhagfyr 2024
**E-bost:** performanceresearch@ceredigion.gov.uk

# Cynnwys


**1.0 Cyflwyniad ..... 5**

**2.0 Cefndir ..... 5**

**3.0 Oedran ..... 6**

3.1 Gweithgaredd Economaidd yn ôl Oedran ..... 7

3.2 Anabledd yn ôl Oedran ..... 7

3.3 Tai yn ôl Oedran ..... 8

**4.0 Anabledd ..... 10**

4.1 Gweithgaredd Economaidd yn ôl Anabledd ..... 10

4.2 Cymwysterau yn ôl Anabledd ..... 11

4.3 Tai yn ôl Anabledd ..... 11

**5.0 Ailbennu Rhywedd ..... 12**

5.1 Oedran yn ôl Ailbennu Rhywedd ..... 12

5.2 Gweithgaredd Economaidd yn ôl Ailbennu Rhywedd ..... 13

5.3 Anabledd yn ôl Ailbennu Rhywedd ..... 13

5.4 Cymwysterau yn ôl Ailbennu Rhywedd ..... 14

**6.0 Statws Priodasol ..... 14**

6.1 Tai yn ôl Statws Priodasol ..... 15

6.2 Iechyd yn ôl Statws Priodasol ..... 15

**7.0 Ethnigrwydd ..... 15**

7.1 Statws Economaidd yn ôl Ethnigrwydd ..... 16

7.2 Cymwysterau yn ôl Ethnigrwydd ..... 17

7.3 Iechyd yn ôl Ethnigrwydd ..... 18

7.4 Deiliadaeth yn ôl Ethnigrwydd ..... 19

**8.0 Crefydd neu Gred ..... 20**

8.1 Gweithgaredd Economaidd yn ôl Crefydd ..... 21

8.2 Anabledd yn ôl Crefydd ..... 21

8.3 Cymwysterau yn ôl Crefydd ..... 22

8.4 Gradd Deiliadaeth yn ôl Crefydd ..... 22

**9.0 Rhyw ..... 23**

9.1 Statws Economaidd yn ôl Crefydd ..... 23

9.2 Deiliadaeth yn ôl Rhyw ..... 24

9.3 Cymwysterau yn ôl Rhyw ..... 25

**10.0 Cyfeiriadedd Rhywiol ..... 26**

10.1 Oedran yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol ..... 27
10.2 Anabledd yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol ..... 27
10.3 Tai yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol ..... 28
10.4 Gweithgaredd Economaidd yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol ..... 28
10.5 Cymwysterau yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol ..... 29
**11.0 Cyfeirnodau ..... 30**

# PENAWDAU ALLWEDDOL

Nod y papur hwn yw archwilio **amrywiaeth a chydraddoldeb yng Ngheredigion** drwy ddefnyddio data Cyfrifiad 2021 ar nodweddion gwarchodedig a'u rhyngweithiadau â **mesurau economaidd-gymdeithasol** amrywiol. Bydd pob un o'r nodweddion gwarchodedig (o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) yn cael eu harchwilio, ac eithrio beichiogrwydd a mamolaeth,


## Oedran

Mae gan y grŵp oedran 16-24 **gyfraddau cyflogaeth** is (22.6%) oherwydd cyfranogiad addysg uchel. Mewn cyferbyniad, mae cyflogaeth ar ei huchaf yn y grŵp oedran 25 i 64 (73.1%), tra bod 14.0% o'r grŵp 65+ yn parhau mewn cyflogaeth, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (10.2%).

**Mae cyfradd anabledd yn cynyddu gydag oedran** yng Ngheredigion, fel y gwelir yn genedlaethol, ond gyda phatrymau lleol unigryw. Yng Ngheredigion, y grŵp oedran sydd â'r gyfradd uchaf o ran anabledd o dan 50 oed yw'r grŵp 16-24, yn wahanol i Gymru'n gyffredinol lle'r grŵp oedran 35-49 sydd ar y brig. Yn gadarnhaol, mae trigolion Ceredigion sy'n 50 oed ac yn hŷn yn llai tebygol o fod yn anabl o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol.

**Mae cyfraddau perchnogaeth tai yn cynyddu wrth i breswylwyr heneiddio** yng Ngheredigion, sydd i'w ddisgwyl gan fod oedolion hŷn fel arfer yn fwy sefydlog yn ariannol. Mae'r patrymau o ran deiliadaeth tai yn ôl oedran yn eithaf cyson â'r darlun cenedlaethol; fodd bynnag, mae cyfran is o oedolion iau sy'n byw mewn tai cymdeithasol wedi'u rhentu yng Ngheredigion (9.4%) o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol (26.1%).

## Anabledd




Mae bron i dri chwarter o bobl anabl yng Ngheredigion yn **economaidd anweithgar** (72.5%), sy'n llawer uwch na'r rhai nad ydynt yn anabl (39.9%) ac yn sylweddol uwch na chyfartaledd Ceredigion (47.9%). Mae hyn oherwydd bod trigolion anabl yn fwy tebygol o fod wedi ymddeol, ar absenoldeb salwch tymor hir neu'n anabl.

Yn gyffredinol, mae'r rhai nad ydynt yn anabl yn tueddu i **gyflawni cymwysterau uwch** (Lefel 1 i Lefel 4), o'i gymharu â phreswylwyr anabl.

Mae pobl ag anableddau yn **fwy tebygol o fod yn berchen ar eu cartref yn llwyr** ond hefyd **yn byw mewn llety rhent cymdeithasol**. Ar y llaw arall, Mae unigolion nad ydynt yn anabl yn llai tebygol o fyw mewn llety rhent cymdeithasol ac maent ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn berchen ar eu heiddo gyda morgais neu fenthyciad neu ranberchenogaeth.

## Ailbennu Rhywedd

Ceredigion (ar y cyd â Chaerdydd) yw'r awdurdod lleol sydd â'r **gyfran fwyaf o breswylwyr** 16 oed a throsodd sydd **â hunaniaeth rhywedd wahanol i'w rhyw fel y cofrestrwyd adeg eu geni.**

Mae trigolion sydd â **hunaniaeth rhywedd wahanol i'w rhyw a gofrestrwyd adeg geni** yn tueddu i fod **yn iau** (16 i 24 oed). Yn ddiweddar mae ailbennu rhywedd wedi dod yn fwy derbyniol; Mae'r cenedlaethau iau wedi tyfu i fyny mewn cyfnod lle mae trafodaethau am amrywiaeth o ran rhywedd yn fwy cyffredin; yn ogystal, mae gwell mynediad at adnoddau a chefnogaeth ar gael, sy'n helpu i egluro'r duedd hon.

Mae cael hunaniaeth rhywedd sy'n wahanol i'w rhyw a gofrestrwyd adeg geni yn **fwy cyffredin** ymhlith **poblogaeth myfyrwyr** yng Ngheredigion.

Mae **cyfradd anabledd** ar gyfer **merched traws** a **dynion traws** yn **sylweddol uwch** na'r boblogaeth gisryweddol (tua 21-38 pwynt canran yn uwch). Mae'r ffigurau hyn yn peri pryder, yn enwedig gan fod y grwpiau hyn fel arfer yn iau.

Mae **canlyniadau addysg** yng Ngheredigion yn **amrywio rhwng trigolion traws a chisryweddol** ac **o fewn grwpiau traws** eu hunain. Mae'r gyfran o ddynion traws sydd heb gymwysterau'n llai (3.2%) o'i gymharu ag unigolion cisryweddol (14.3%) a menywod traws (22.6%).

## Statws Priodol

Mae'r rhai sy'n **weddw neu'n bartner sifil sy'n fyw (goroesol)** yn fwy tebygol o fod **yn berchen ar eu cartrefi** yn llwyr (75.8%) o'i gymharu â chyfartaledd Ceredigion (42.4%). Mae'r ganran o bobl sydd wedi **ysgaru neu sydd wedi diddymu eu partneriaeth sifil** yn fwy tebygol o fyw yn y sector rhentu cymdeithasol.

Ceir **gwahaniaethau rhwng iechyd cyffredinol a statws priodasol pobl**. Y rhai nad ydynt erioed wedi bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil yw'r mwyaf tebygol o gael iechyd da iawn, o'i gymharu â phob statws priodasol arall, tra bod pobl weddw neu'r rhai sydd wedi goroesi eu partner mewn partneriaeth sifil yn fwy tebygol o fod ag iechyd gwael iawn.

## Ethnigrwydd

Mae **anghydraddoldebau yn statws gweithgarwch economaidd yn ôl ethnigrwydd**, yn enwedig ymhlith pobl Ddu, Ddu Gymreig, (y **cyfraddau uchaf** o ran **cyflogaeth** a **diweithdra**) a *Grwpiau ethnig cymysg neu amlethnig* (**cyfraddau diweithdra isaf**). Ymhlith y ffactorau posibl sy'n dylanwadu mae rhwystrau strwythurol yn y farchnad lafur, diffyg cynrychiolaeth mewn swyddi yn y sector addysg uwch, a chyfran uwch o fyfyrwyr ac unigolion sy'n gofalu am y cartref neu'r teulu.




Y bobl yn y grŵp ethnig *'**Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd**'* oedd **fwyaf tebygol** o nodi eu bod â **chymhwyster Lefel 4 neu uwch**, tra mai'r rhai yn y grŵp ethnig 'Gwyn' oedd **lleiaf tebygol**. Ar y llaw arall, y bobl yn y *'Grŵp ethnig arall'* oedd fwyaf tebygol o fod **heb gymwysterau o gwbl**, gyda'r rhai yn y grŵp *'Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Affricanaidd neu Garibïaidd'* y lleiaf tebygol.



**Yn gyffredinol, adroddir canlyniadau iechyd gwell ar gyfer pobl o leiafrif ethnig** o'i gymharu â'r grŵp ethnig *'Gwyn'*, sy'n rhannol oherwydd dosbarthiad oedran. Mae proffiliau oedran iau ymhlith lleiafrifoedd ethnig yn helpu i esbonio eu canlyniadau iechyd cymharol well. Er enghraifft, mae 48% o bobl yn y grŵp ethnig 'Gwyn' dros 50 oed, o'i gymharu â 17–19% o'r lleiafrifoedd ethnig.



Roedd gan y **grŵp ethnig '*Gwyn*'** y **gyfran uchaf o berchnogion tai** a'r gyfran isaf o **rentwyr preifat**. Mae'r *'Grwpiau cymysg neu amlethnig'* yn dal sylw gyda'r gyfran uchaf o **rentwyr yn y sector rhentu cymdeithasol**. Gellid egluro'r gwahaniaethau o ran deiliadaeth tai ar draws grwpiau ethnig yn rhannol gan broffil oedran iau'r grwpiau hyn, ac o bosibl hefyd gan rwystrau economaidd-gymdeithasol i rentu'n breifat neu berchen tŷ.

## Crefydd neu gred



Mae **Cristnogion** yn fwy tebygol o fod **wedi ymddeol** (38.9%), tra mai **Mwslimiaid** yw'r grŵp **lleiaf tebygol** o fod wedi ymddeol (3.0%). Mae'r categori 'Crefydd arall' yn fwy tebygol o fod ag **anabledd neu salwch tymor hir** (11.0%), tra mai Mwslimiaid yw'r categori llai tebygol (0.5%). Mae pob crefydd arall a'r rhai a ddewisodd **'dim crefydd'** yn fwy tebygol o fod yn **fyfyrwyr economaidd anweithgar,** (rhwng 12-22%), o'u cymharu â Christnogion (4.9%).



Yn gyffredinol, mae **canran y bobl sy'n anabl** (o dan y Ddeddf Cydraddoldeb) yn y rhan fwyaf **o grwpiau crefyddol yn cyd-fynd â chyfartaledd y Sir**. Fodd bynnag, mae anghysondeb ymhlith yr Iddewon a'r categori 'Crefydd arall', lle mae 44.2% a 43.6% o'r boblogaeth o fewn y categorïau yma'n anabl, yn y drefn honno. Mae hyn tua 22 pwynt canran yn uwch na chyfartaledd y Sir (21.9%).



Yn gyffredinol, mae **cyfraddau uwch** o **Gristnogion** a **Mwslimiaid** sydd **heb gymwysterau** (18.1% ac 17.7% yn y drefn honno), o'i gymharu â chyfartaledd y Sir (14.7%). **Hindŵiaid** yw'r grŵp mwyaf tebygol o adrodd bod ganddynt **gymhwyster ar Lefel 4 ac uwch**, tra bod **Sikhiaid** ychydig **yn is na chyfartaledd y Sir** (34.4%, dim ond 0.9 pwynt canran yn is).



Mae **tebygolrwydd uwch o orlenwi ymhlith aelwydydd Mwslimaidd, Hindŵaidd a Sikhaidd**, a gallai hyn fod yn deillio o draddodiadau diwylliannol a gwahaniaethu economaidd-gymdeithasol. Byddai angen ymchwil bellach i ddeall beth sy'n sbarduno'r tueddiadau hyn.

## Rhyw



Mae **gwahaniaethau rhwng y rhywiau o ran statws gweithgarwch economaidd ledled Ceredigion**, sydd hefyd **i'w weld ledled Cymru**. Mae dynion yn fwy tebygol o fod mewn cyflogaeth (52.3%) o'i gymharu â Menywod (46.0%), ond mae ganddynt gyfradd ddiweithdra uwch hefyd. Ar y llaw arall, mae gan ferched gyfraddau anweithgarwch economaidd uwch (51.3%) o'i gymharu â dynion (44.4%), sy'n aml yn gysylltiedig â chyfrifoldebau gofal a thueddiadau ymddeol yn gynnar. Mae hyn yn awgrymu bod ffactorau strwythurol, megis patrymau cyfranogiad yn y farchnad lafur a chyfrifoldebau gofalu, yn debygol o yrru'r gwahaniaethau hyn.



**Gall rhyw ddylanwadu ar ddewisiadau tai i ryw raddau**. Mae merched yn fwy tebygol o fod yn berchen ar dai yn llwyr, yn rhentu'n breifat neu'n byw heb dalu rhent, ac yn rhentu tai cymdeithasol, tra bo dynion yn fwy tebygol o fod yn berchen gyda morgais neu drwy berchnogaeth a rennir.



**Mae menywod** ychydig **yn fwy tebygol o gyflawni cymwysterau uwch** (Lefel 4 ac uwch) na dynion, tra bod **dynion yn fwy tebygol** o gyflawni **cymwysterau eraill**. Mae hyn yn cyd-fynd yn fras â'r duedd genedlaethol; fodd bynnag, mae'r anghydraddoldeb rhwng y rhywiau yn ehangach yng Ngheredigion, gan awgrymu y gallai ffactorau lleol fod yn dwysau'r gwahaniaeth hwn.

## Cyfeiriadedd Rhywiol




**Mae grwpiau oedran iau** yn adrodd **cyfraddau is o uniaethu fel syth/heterorywiol**, gyda'r grŵp 16–24 oed yn sylweddol fwy tebygol o uniaethu fel hoyw, lesbiaidd, neu ddeurywiol o'i gymharu â grwpiau oedran hŷn.



Mae'r rhai sy'n **uniaethu fel deurywiol** (39.2%) neu'n perthyn i'r categori '**pob cyfeiriadedd rhywiol**' (45.8%) **yn fwy tebygol o fod yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb**, gyda gwahaniaeth amlwg rhwng y rhai sy'n uniaethu fel heterorywiol/syth (23.5%) – gwahaniaeth o 16-22 pwynt canran. Gwelir y tueddiadau hyn hefyd ar lefel genedlaethol.



Y bobl hynny sy'n **hoyw, yn lesbiaid, yn ddeurywiol ac o bob cyfeiriadedd rhywiol arall** yw'r **lleiaf tebygol o fod yn berchen ar eu heiddo'n llwyr**, fodd bynnag, nid yw hyn yn syndod o ystyried proffil oedran iau'r poblogaethau hyn.



**Mae unigolion deurywiol a'r rhai o gyfeiriadedd rhywiol eraill** dros **ddwywaith yn fwy tebygol o feddu ar gymwysterau Lefel 3** (50.0% a 50.9% yn y drefn honno), o'i gymharu ag unigolion heterorywiol/syth (19.8%). Nid yw hyn yn syndod o ystyried bod **myfyrwyr** yn fwy tebygol o uniaethu â'r cyfeiriadedd rhywiol hwn.

## 1.0 Cyflwyniad


Mae'r Pwnc hwn yn rhan o gyfres o bum adroddiad pwrpasol Cyngor Sir Ceredigion sy'n dadansoddi canlyniadau Cyfrifiad 2021. Mae'r adroddiad yn archwilio'r nodweddion gwarchodedig a'r modd y maent yn rhyngweithio â gwahanol fesurau economaidd-gymdeithasol, megis gweithgarwch economaidd, deiliadaeth tai ac iechyd hunangofnodedig.  Bydd y dadansoddiad yn cynnig mewnwelediad i'r modd y mae nodweddion gwarchodedig yn rhyngweithio â chanlyniadau economaidd a chymdeithasol. Bydd hefyd yn edrych ar sut mae'r sefyllfa wedi newid dros y degawd, ers Cyfrifiad 2011. Bydd unrhyw dueddiadau allweddol sy'n wahanol i'r patrymau cenedlaethol hefyd yn cael eu hamlinellu a'u harchwilio.

Trwy archwilio'r nodweddion hyn yn erbyn newidynnau eraill, nod yr adroddiad yw tynnu sylw at y patrymau demograffig, cymdeithasol ac economaidd yng Ngheredigion, gan roi sylw arbennig i'r anghydraddoldebau a'r tueddiadau unigryw a welir ymhlith y boblogaeth. Bydd yr adroddiad nid yn unig yn tynnu sylw at statws amrywiaeth a chydraddoldeb yng Ngheredigion, ond hefyd yn cynnig sail ar gyfer llunio polisïau gwybodus i fynd i'r afael â bylchau a hyrwyddo cynhwysiant.

## 2.0 Cefndir

Cyhoeddwyd y Ddeddf Cydraddoldeb yn 2010 i amddiffyn pobl yn gyfreithiol rhag gwahaniaethu yn y gweithle ac yn y gymdeithas ehangach. Mae'r Ddeddf yn amlinellu naw nodwedd sy'n cael eu diogelu rhag gwahaniaethu yn ôl y gyfraith, gelwir y rhain yn Nodweddion Gwarchodedig. Mae Ffigur 1 isod yn dangos y naw Nodwedd Warchodedig.

**Ffigur 1: Y naw Nodwedd Warchodedig rhag y Ddeddf Cydraddoldeb (2010).**




*Ffynhonnell: Llywodraeth DU – Deddf Cydraddoldeb 2010*[1]
*Wedi'i ddylunio gan ddefnyddio Canva

[1] Llywodraeth DU. Deddf Cydraddoldeb (2010). Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents


Mae'r Cyfrifiad yn casglu data sy'n ymwneud â bron pob un o'r nodweddion gwarchodedig a gaiff eu harchwilio; yr unig eithriad yw beichiogrwydd a mamolaeth. Er bod holiadur y Cyfrifiad yn cynnwys cwestiwn lle gall cyfranogwyr nodi eu bod 'ar absenoldeb mamolaeth neu dadolaeth', ni ryddheir unrhyw allbynnau penodol yn ymwneud â hyn.

## 3.0 Oedran

Mae oedran yn ffactor hanfodol mewn dadansoddiad economaidd-gymdeithasol, gan ei fod yn dylanwadu ar fynediad at gyfleoedd a gofal iechyd, lefelau incwm ac ansawdd bywyd yn gyffredinol. Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae 14.1% (10,081) o'r boblogaeth breswyl yn cynnwys plant (0 i 15 oed), mae dros hanner y boblogaeth (60.2% / 43,002) o oedran gweithio (16 i 64 oed), ac mae ychydig dros chwarter (25.7% / 18,385) dros 65 oed. Yn 2021, Ceredigion oedd â'r gyfran isaf o blant yn genedlaethol.

Ers y cyfrifiad blaenorol yn 2011, mae poblogaeth Ceredigion wedi parhau i heneiddio wrth i ddisgwyliad oes barhau i gynyddu ychydig (er ei fod yn araf) a chyfraddau ffrwythlondeb yn aros yn sefydlog (Ffigur 2). Y grŵp oedran dros 65 yw'r unig grŵp sydd wedi gweld twf, wedi cynyddu 17.2% (+2,680) ers Cyfrifiad 2011. Mae nifer y plant (0 i 15 oed) a phobl o oedran gweithio (16 i 64 oed) wedi gostwng dros y degawd, o 10.2%/-1,149 (o blant), a 12.2% / -5,985 (oedran gweithio) yn y drefn honno.

**Ffigur 2: Poblogaeth Oedran a Rhyw 2011 a 2021, Ceredigion**




*Ffynhonnell: SYG, 2011 Cyfrifiad (LC1117EW) a 2021 Cyfrifiad (TS009)*

## 3.1 Gweithgaredd Economaidd yn ôl Oedran

Mae patrymau gweithgarwch economaidd* yn amrywio ar draws y tri grŵp oedran eang: [2]

Grŵp Oedran 16-24:

- Cyfraddau cyflogaeth cymharol isel* fel y dangosir gan fod y mwyafrif yn economaidd anweithgar ac yn fyfyrwyr llawn amser (52.9%), sy'n sylweddol uwch na'r grwpiau oedran eraill ac yn uwch na chyfartaledd Cymru (38.2%). Mae hyn yn cael ei ddylanwadu'n sylweddol gan gyfraddau uchel o bobl mewn addysg llawn amser, llai o bobl yn chwilio gwaith y tu allan i addysg ac o bosib, cyfyngiadau'r farchnad swyddi leol.

Grŵp Oedran 25-64:

- Cyfradd cyflogaeth uchel (73.1%) (Mae hyn yn eithrio myfyrwyr amser llawn), sy'n cyd-fynd â'r cyfartaledd cenedlaethol. Fel y disgwylir, mae cyfran yr oedolion mewn cyflogaeth yn llawer uwch na'r oedolion ifanc (22.6%), sydd â chyfradd uwch o gyflogaeth ran-amser neu hyblyg oherwydd addysg/astudio neu gyfyngiadau o ran argaeledd swyddi, a'r rhai o oedran ymddeol (65 oed a hŷn) (14.0%) yng Ngheredigion.

Grŵp Oedran 65+:

- Mae gweithgarwch economaidd yn gostwng yn sylweddol, gyda'r mwyafrif (85.6%) yn economaidd anweithgar (ac eithrio myfyrwyr amser llawn), sy'n gyson â thueddiadau mewn poblogaethau sy'n heneiddio. Er gwaethaf hyn, mae canran uwch o'r grŵp oedran 65+ mewn cyflogaeth (14.0%) o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol (10.2%). Mae hyn yn awgrymu bod oedolion hŷn yng Ngheredigion yn fwy tebygol o barhau yn y gweithlu. Gall hyn fod yn ddewis personol, wedi'i yrru gan angen ariannol, neu gan natur yr economi leol (h.y., cyfran uwch o unigolion hunangyflogedig ac academyddion sy'n dewis parhau i weithio y tu hwnt i'r oedran ymddeol arferol).

## 3.2 Anabledd yn ôl Oedran

Mae'r data ar gyfer Ceredigion yn adlewyrchu tuedd ehangach a welir ar draws llawer o boblogaethau, sef wrth i drigolion heneiddio, mae mwy o debygolrwydd y byddant yn profi anableddau (corfforol a gwybyddol), a all effeithio ar gyfleoedd cyflogaeth ac anghenion gofal iechyd. Fodd bynnag, o'i gymharu â'r darlun cenedlaethol, mae rhai patrymau unigryw i'w gweld yng Ngheredigion, yn enwedig ymhlith grwpiau oedran iau. Mae Ffigur 3 isod yn darparu dadansoddiad o'r modd y mae oedran ac anabledd yn rhyngweithio a hynny'n seiliedig ar Gyfrifiad 2021.

---

** Mae pobl 16 oed a throsodd yn cael eu hystyried yn economaidd weithgar os, rhwng 15 Mawrth ac 21 Mawrth 2021, yr oeddent:*


*Mewn cyflogaeth (yn weithiwr cyflogedig neu'n hunangyflogedig)*

*Yn ddi-waith, ond yn chwilio am waith ac yn gallu dechrau o fewn pythefnos*

*Yn ddi-waith, ond yn aros i ddechrau swydd a oedd wedi'i chynnig ac wedi'i derbyn*

*Mae pobl economaidd anweithgar yn cynnwys y rhai 16 oed a throsodd nad oedd ganddynt swydd rhwng 15 Mawrth a 21 Mawrth 2021 ac nad oeddent wedi chwilio am waith nac yn gallu dechrau gweithio o fewn pythefnos (wedi ymddeol, yn fyfyriwr, yn sâl/anabl yn hirdymor).* [2] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023). Statws gweithgarwch economaidd yn ôl oedran, yn ôl rhyw. Ar gael yma: [Statws gweithgarwch economaidd yn ôl oedran, yn ôl rhyw - Swyddfa Ystadegau Gwladol]

**Ffigur 3: Cyffredinrwydd anabledd ar draws 6 grŵp oedran – Ceredigion a Chymru (2021)**




*Ffynhonnell: SYG – 2021 Cyfrifiad*[3]

Mae gan blant (15 oed ac iau) y cyfraddau isaf o anabledd (5.6%), sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol ac yn adlewyrchu'r cyfnodau datblygiadol arferol lle mae anableddau fel arfer yn llai cyffredin. Ar gyfer oedolion ifanc (16 i 24 oed), mae'r gyfradd anabledd yn cynyddu i 17.0%, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 14.5%, ac yn cynrychioli'r grŵp lle mae hyn y mwyaf cyffredin ymhlith y rhai o dan 50 oed. Mae hyn yn groes i'r tueddiadau cenedlaethol, lle fel arfer y grŵp oedran 35 i 49 sydd â'r amlder uchaf ymhlith y rhai o dan 50 oed. Mae'r cyfraddau'n cynyddu'n sylweddol ymhlith oedolion hŷn (50+), gan gyrraedd 23.7% yn y grŵp oedran 50 i 64 oed a 37.1% ymhlith y rhai 65 oed a hŷn, gan adlewyrchu problemau iechyd sy'n gysylltiedig ag oedran. Yn nodweddiadol, mae trigolion hŷn yng Ngheredigion ychydig yn llai tebygol o fod yn anabl na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y grwpiau oedran hyn.

Mae'r gwahaniaethau hyn yn tynnu sylw at duedd unigryw Ceredigion mewn achosion o anabledd, sy'n awgrymu bod angen targedu cyfleoedd iechyd, hygyrchedd a chyflogaeth sy'n mynd i'r afael ag anabledd nid yn unig ar gyfer trigolion hŷn, ond ar draws pob oedran.


## 3.3 Tai yn ôl Oedran

Mae gan Geredigion lefel gymharol dda o ran perchnogaeth tai. Yn 2021, roedd yr awdurdod lleol hwn yn y chweched safle o ran y ganran uchaf o berchnogaeth tai (68.6%/ 21,272) yng Nghymru, a'r ganran uchaf o gartrefi wedi'u perchnogi'n llwyr (47.9%/ 14,798). Ers Cyfrifiad 2011, cofnododd Ceredigion y cynnydd mwyaf yng Nghymru, yn ôl pwynt canran, yng nghyfran yr aelwydydd oedd yn berchen ar eu cartrefi (o 67.6% yn 2011 i 68.6% yn 2021).

Mae yna dueddiadau sy'n gysylltiedig ag oedran pan ystyrir deiliadaeth ac mae'r rhain yn cyd-fynd â phatrymau ehangach yng Nghymru lle mae oedolion hŷn yn fwy tebygol o fod yn berchen ar gartrefi'n llwyr o'i gymharu â'r grwpiau oedran iau. Mae Ffigur 4 isod yn amlinellu'r mathau o ddeiliadaeth ym mhob grŵp oedran.

[3] SYG (2024). 2021 Cyfrifiad, Set Data Cwstwm – Anabledd yn ôl oedran. Ar gael yn: Custom dataset - Office for National Statistics

**Ffigur 4: Oedran yn ôl daliadaeth tai (Cyfeirnod Person Aelwyd) – Ceredigion (2021)**




*Ffynhonnell: SYG, 2021 Cyfrifiad*[4]

Mae aelwydydd iau yng Ngheredigion (o dan 35 oed) yn llawer llai tebygol o fod yn berchen ar eu cartrefi (yn llwyr neu gyda morgais), gyda chyn lleied â 6.7% o bobl ifanc 16 i 24 oed, ac ychydig dros draean (35.2%) o bobl 25 i 34 oed yn berchen ar eu cartrefi, sy'n sylweddol is na chyfartaledd Ceredigion (68.9%). Yn hytrach, mae'r aelwydydd hyn yn aml yn dewis rhentu'n breifat/ byw heb dalu rhent neu rentu tai cymdeithasol. Mae aelwydydd canol oed (35 i 64 oed) yn dangos cynnydd sylweddol mewn perchnogaeth tai, gyda'r rhai 50 i 64 oed yn llawer mwy tebygol o fod yn berchen ar eu tai'n llwyr (48.2%) o'i gymharu â bod yn berchen gyda morgais (27.4%). Tra bod dros dri chwarter o aelwydydd hŷn (65 oed a hŷn) yn berchen ar eu cartrefi'n llwyr (77.2%), sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (73.3%).


Disgwylir gweld tuedd o gyfraddau uwch o ran perchnogaeth tai ymhlith aelwydydd canol oed a hŷn gan eu bod fel arfer yn fwy sefydledig yn ariannol. Nid yw aelwydydd iau wedi cael cymaint o amser i ymuno â'r farchnad dai, efallai hefyd eu bod yn wynebu mwy o rwystrau i fod yn berchen ar eu cartrefi eu hunain neu heriau o ran fforddiadwyedd. Mae'r patrwm hwn yn weddol gyson â'r darlun cenedlaethol; fodd bynnag, mae tueddiadau gwahanol i'w gweld o ran rhentu. Yn nodedig, mae cyfran is o oedolion iau, yn enwedig y rhai 16 i 24 oed, sy'n byw mewn tai cymdeithasol wedi'u rhentu yng Ngheredigion (9.4%), o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol (26.1%).

[4] SYG (2024). 2021 Cyfrifiad: Daliadaeth yn ôl Oedran – Personau Cyfeirio Aelwydydd (HRP). Ar gael yn: [Tenure by age - Household Reference Persons - Office for National Statistics]

## 4.0 Anabledd

Mae llai na chwarter (21.9%) o boblogaeth Ceredigion yn cael eu hystyried yn anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (21.6%) (Ffigur 5).

**Ffigur 5: Canran y boblogaeth anabl a phobl nad ydynt yn anabl yng Ngheredigion.**




*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021*[5]

Ers 2011, gostyngodd cyfran y boblogaeth yng Nghymru a oedd yn anabl 2.3 pwynt canran, tra bod Ceredigion wedi gweld cynnydd o 0.7 pwynt canran. Cododd Ceredigion i'r pumed safle ymhlith awdurdodau lleol Cymru o ran cyfran y bobl a nododd eu bod yn anabl. *Defnyddiwyd cyfrannau wedi'u safoni yn ôl oedran i sicrhau bod maint y boblogaeth a strwythur oedran yn cael eu hystyried wrth gymharu'r ddau gyfnod. Cwestiwn hunanasesu yw hwn, ac mae angen ystyried hyn wrth edrych ar y ffigurau hyn.*

### 4.1 Gweithgaredd Economaidd yn ôl Anabledd

Mae dadansoddi data'r Cyfrifiad 2021 ar anabledd ochr yn ochr â data statws gweithgarwch economaidd yn dangos rhai tueddiadau diddorol, ond braidd yn rhagweladwy. Mae bron i dri chwarter o bobl anabl yng Ngheredigion yn economaidd anweithgar (72.5%), sy'n llawer uwch na'r rhai nad ydynt yn anabl (39.9%) ac yn sylweddol uwch na chyfartaledd Ceredigion (47.9%).

[5] SYG (2021) TS038 Anabledd. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2056&geog=lacu2021

Wrth fynd ati i edrych yn fanylach ar pam mae pobl anabl yn economaidd anweithgar, mae'r data'n dangos bod bron i hanner (42.1%) y rhai sy'n cael eu hystyried yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb wedi ymddeol, sy'n 19.1 pwynt canran yn uwch na'r rhai nad ydynt yn anabl (23.0%) a llawer yn uwch na chyfartaledd y rhai hynny sydd wedi ymddeol yng Ngheredigion (27.7%). Nid yw'n syndod bod canran uwch o bobl anabl yn economaidd anweithgar oherwydd eu bod â salwch hirdymor neu'n anabl (16.7%) o'i gymharu â'r rhai nad ydynt yn anabl (0.5%).


## 4.2 Cymwysterau yn ôl Anabledd

Yn gyffredinol, mae'r rhai nad ydynt yn anabl yn tueddu i gyflawni cymwysterau uwch (lefel 1 hyd at lefel 4), o'i gymharu ag unigolion anabl. Er enghraifft, mae ychydig llai na dau o bob pump (37.0%) o'r rhai nad ydynt yn anabl wedi cyflawni cymwysterau Lefel 4, o'i gymharu ag ychydig llai na thraean (30.0%) o'r rhai sy'n cael eu hystyried yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, sy'n is na chyfartaledd Ceredigion (35.3%). Mae gwahaniaeth o 9.8 pwynt canran rhwng canran y bobl anabl nad ydynt wedi ennill unrhyw gymwysterau (22.1%) a'r rhai nad ydynt yn anabl (12.3%), mae hyn o'i gymharu â chyfartaledd Ceredigion o 14.7%.

## 4.3 Tai yn ôl Anabledd

Mae unigolion anabl yn fwy tebygol o fod yn berchen ar eu cartref yn llwyr (49.3%) o'i gymharu ag unigolion nad ydynt yn anabl (40.4%). Fodd bynnag, maent hefyd yn fwy tebygol o fyw mewn llety rhent cymdeithasol, gyda 12.9% yn rhentu o'i gymharu â dim ond 5.9% o'r rhai nad ydynt yn anabl, bwlch o 7 pwynt canran. I'r gwrthwyneb, mae unigolion nad ydynt yn anabl ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn berchen ar eu heiddo gyda morgais, benthyciad neu berchnogaeth a rennir (29.6%) o'i gymharu ag unigolion anabl (14.7%).

**Ffigur 6: Canran y boblogaeth anabl fesul Daliadaeth yng Ngheredigion.**




*Ffynhonnell: SYG (2023), Cyfrifiad 2021*[6]

[6] SYG (2021) Anabledd yn ôl Daliadaeth. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/datasets/create

# 5.0 Ailbennu Rhywedd

Defnyddir y term Ailbennu rhywedd i ddisgrifio unigolyn:

- sydd wedi cael, yn bwriadu, neu sydd ar hyn o bryd yn cael triniaeth ailbennu rhywedd (triniaeth feddygol a llawfeddygol i newid y corff).
- nad yw'n bwriadu cael triniaeth feddygol ond sy'n dymuno byw yn barhaol mewn rhyw wahanol i'w ryw ar adeg geni.

Fel arfer, mae unigolion yn derbyn triniaeth ailbennu rhywedd pan fyddant yn teimlo nad yw eu rhyw ar adeg geni yn cyd-fynd â'u hunaniaeth rhywedd.

Yng Ngheredigion, cafwyd ymatebion i'r cwestiwn ar hunaniaeth rhywedd gan 56,302 o bobl (91.6% o'r boblogaeth 16 oed a throsodd), gweler Tabl 1 isod. Er mai nifer fach o bobl 16 oed a throsodd a nododd hunaniaeth rhywedd wahanol i'w rhyw fel y cofrestrwyd adeg eu geni (0.7% / 428), Ceredigion a Chaerdydd oedd yr awdurdodau lleol â'r cyfrannau uchaf yn genedlaethol. Fel Caerdydd, mae gan Geredigion gyfran uchel o fyfyrwyr sy'n byw yn y sir, sy'n egluro'r cyfrannau uwch (gweler Adrannau 5.1 a 5.2 isod). *Dyma'r tro cyntaf i'r cwestiwn hwn gael ei ofyn yn y Cyfrifiad, felly nid oes unrhyw ddata tebyg o'r Cyfrifiadau blaenorol.*

**Tabl 1: Nifer a Chanran trigolion Ceredigion yn ôl Hunaniaeth Rhywedd.**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Hunaniaeth rhyw yr un fath â rhyw a gofrestrwyd ar enedigaeth | 55,874 | 91.0% |
| Hunaniaeth rhyw yn wahanol i ryw a gofrestrwyd ar enedigaeth ond ni roddir hunaniaeth benodol | 84 | 0.1% |
| Menyw Drawsryweddol | 73 | 0.1% |
| Dyn Drawsryweddol | 62 | 0.1% |
| Pob hunaniaeth rhyw arall | 209 | 0.3% |
| Heb ateb | 5,087 | 8.3% |

** Efallai na fydd y ffigurau'n adio oherwydd talgrynnu*
*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021*[7]

## 5.1 Oedran yn ôl Ailbennu Rhywedd

Mae trigolion Ceredigion (dros 16 oed) sydd â hunaniaeth rhywedd wahanol i'w rhyw sydd wedi'i gofrestru adeg eu geni, yn tueddu i fod yn iau.[8] Canran y rhai sydd â'r un hunaniaeth rhywedd fel y cofrestrwyd adeg eu geni o fewn y categori oedran 16 i 24 oed yw 86.9%, o'i gymharu â 91.0% o holl drigolion Ceredigion. Tra'r rhai hynny yn y grŵp oedran 35 i 49 oedd â'r ganran uchaf o unigolion cisryweddol[9] (93.4%). Yn gyfatebol, pobl ifanc 16 i 24 oed oedd â'r ganran uchaf o fenywod traws (0.4%), dynion traws (0.4%) a phob hunaniaethau rhywedd arall (1.5%).

---

[7] SYG (2021) TS078 Hunaniaeth Rhyw. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2061&geog=lacu2021
[8] *Ni allai'r rhai dan 16 oed ateb y cwestiwn hunaniaeth rhywedd yn y Cyfrifiad.*
[9] *Cisryweddol: person y mae ei hunaniaeth rhywedd yn cyfateb i'w ryw adeg geni, h.y. rhywun nad yw'n drawsryweddol.*

Yn genedlaethol, mae'r darlun yn debyg, er bod y canrannau o fenywod traws, dynion traws ac unigolion ag hunaniaethau rhywedd eraill ymhlith pobl iau yn is. Yn ddiweddar, mae ailbennu rhywedd wedi dod yn fwy derbyniol, ac mae'r genhedlaeth iau wedi tyfu i fyny mewn cyfnod lle mae trafodaethau ynghylch amrywiaeth rhywedd yn fwy cyffredin. Yn ogystal, mae gwell mynediad at adnoddau a chymorth ar gael. Mae hyn yn helpu i esbonio pam rydym yn gweld nifer cynyddol o bobl ifanc yn uniaethu â hunaniaeth rhywedd wahanol.


## 5.2 Gweithgaredd Economaidd yn ôl Ailbennu Rhywedd

Myfyrwyr economaidd anweithgar yw'r rhai mwyaf tebygol o fod â hunaniaeth rhywedd wahanol i'w rhyw wedi'i gofrestru adeg geni (2.7%). Ar y llaw arall, y rhai sy'n economaidd anweithgar ac sydd yn gofalu am y cartref neu'r teulu yw'r rhai mwyaf tebygol o fod â'r un rhyw ag sydd wedi'i gofrestru ar adeg geni (92.4%), gyda dim ond 0.5% o'r boblogaeth hon yn nodi hunaniaeth rhywedd wahanol. Mae'r tueddiadau hyn, ynghyd â'r ffigurau ailbennu rhywedd yn ôl oedran, yn awgrymu bod cael hunaniaeth rhywedd wahanol i'r rhyw fel y cofrestrwyd adeg geni yn fwy cyffredin ymhlith y boblogaeth fyfyrwyr yng Ngheredigion.

## 5.3 Anabledd yn ôl Ailbennu Rhywedd

Mae gwahaniaethau amlwg yn y cyfraddau anabledd rhwng grwpiau hunaniaeth rhywedd (gweler Ffigur 7). Mae gan fenywod traws (45.2%) a dynion traws (62.9%) gyfraddau anabledd sylweddol uwch na'r boblogaeth cisgender (24.1%) a chyfartaledd y sir (24.6%). Mae'r ffigurau hyn yn peri pryder, yn enwedig gan fod y grwpiau hyn yn tueddu i fod yn iau. Mae gan Gymru a Cheredigion gyfraddau tebyg o ran anabledd yn ôl hunaniaeth rhywedd; fodd bynnag, mae canran y dynion traws sy'n anabl yn llawer uwch yng Ngheredigion (62.9%) nag yng Nghymru gyfan (39.7%) — gwahaniaeth o 23 pwynt canran.

**Ffigur 7: Canran y boblogaeth anabl yn ôl Hunaniaeth Rhywedd.**




*Ffynhonnell: SYG (2023), Cyfrifiad 2021*[10]

[10] SYG (2021) RM036 Hunaniaeth Rhyw yn ôl Anabledd. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2136&geog=lacu2021

Mae’r gwahaniaethau yn y cyfraddau anabledd yn drawiadol, yn enwedig ymhlith y boblogaeth draws. Gall y cyfraddau anabledd uwch ymhlith unigolion traws ac eraill ag hunaniaethau rhywedd amgen ddangos bod rhwystrau ac anghydraddoldebau mewn meysydd eraill (e.e. heriau iechyd meddwl, rhwystrau i hygyrchedd, ffactorau cymdeithasol, anghydraddoldebau o ran gofal iechyd). Byddai angen archwilio ymhellach i ddeall y rhesymau sylfaenol a’r rhwystrau sy’n cyfrannu at y gwahaniaethau hyn.


## 5.4 Cymwysterau yn ôl Ailbennu Rhywedd

Mae canlyniadau addysg yng Ngheredigion yn amrywio rhwng trigolion traws a chisrhyweddol, ac o fewn y grwpiau traws eu hunain. Mae cyfran lai o ddynion traws heb gymwysterau (3.2%) o'i gymharu ag unigolion cisrhyweddol (14.3%), tra bod cyfran uwch o fenywod traws heb gymwysterau (22.6%). Mae menywod traws (35.6%) a dynion traws (58.1%) yn sylweddol fwy tebygol o fod â chymwysterau Lefel 3, o'i gymharu â'r rhai y mae eu hunaniaeth rhywedd yn cyfateb i'w rhyw adeg eu geni (21.2%). Fodd bynnag, mae gan lai o fenywod traws (27.4%) a dynion traws (24.2%) gymwysterau Lefel 4 o'i gymharu â'r grŵp cisrhyweddol (35.3%). Efallai bod y tebygolrwydd uwch y bydd unigolion traws yn fyfyrwyr (gweler 4.1 a 4.2) yn egluro’r cyflawniad addysgol uwch ymhlith dynion traws. Fodd bynnag, mae'n anodd nodi’r union achosion sy’n sail i’r canlyniadau cymwysterau anghymesur ar gyfer menywod traws.

# 6.0 Statws Priodasol

Yng Ngheredigion, mae ychydig o dan hanner y boblogaeth (43.1%) yn briod neu mewn partneriaeth sifil gofrestredig. Mae dros draean (38.7%) erioed wedi priodi nac wedi cofrestru partneriaeth sifil. Nododd 1.7% o boblogaeth Ceredigion eu bod wedi gwahanu, ond yn dal i fod yn briod yn gyfreithiol neu'n dal i fod mewn partneriaeth sifil yn gyfreithiol (gweler ffigur 8).

**Ffigur 8: Statws Partneriaeth Gyfreithiol poblogaeth Ceredigion.**




*Ffynhonnell: SYG (2022), Cyfrifiad 2021*[11]

[11] SYG (2021) TS002 Statws partneriaeth gyfreithiol. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2022&geog=lacu2021

Cafodd Ceredigion y cynnydd mwyaf, o ran pwynt canran, ar y cyd yng Nghymru (gyda Sir Fynwy) yn y gyfran o bobl 16 oed a throsodd a oedd wedi ysgaru neu wedi diddymu partneriaeth sifil (o 8.5% yn 2011 i 9.3% yn 2021). Er gwaethaf hyn, aeth Ceredigion o fod â'r ail ganran isaf o bartneriaethau sifil sydd wedi ysgaru neu ddiddymu ymhlith oedolion yn 2011 i'r drydedd isaf yn genedlaethol yn 2021.

## 6.1 Tai yn ôl Statws Priodasol

Yng Ngheredigion, mae dros dri chwarter y bobl sy'n weddw neu'n bartneriaid sifil sy'n fyw yn berchen ar eu cartrefi yn llwyr (75.8%), sy'n llawer uwch na chyfartaledd Ceredigion (42.4%). Mae'r rhai sy'n briod ar hyn o bryd neu mewn partneriaeth sifil gofrestredig hefyd yn fwy tebygol o fod yn berchen ar eu cartrefi yn llwyr (58.3%), o'i gymharu â'r rhai sydd wedi ysgaru neu sydd wedi diddymu eu partneriaeth sifil (44.9%). Mae hefyd anghydraddoldebau o fewn y sector rhentu cymdeithasol yn ôl statws priodasol. Mae canran y bobl sydd wedi ysgaru neu sydd wedi diddymu eu partneriaeth sifil ac sy'n byw yn y sector rhentu cymdeithasol (15.5%) 10.9 pwynt canran yn uwch na'r rhai sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil gofrestredig (4.6%).

## 6.2 Iechyd yn ôl Statws Priodasol

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae gwahaniaethau, er eu bod yn fach, rhwng iechyd cyffredinol a statws priodasol pobl. Mae canran uwch o bobl sy'n weddw neu'n goroesi eu partner partneriaeth sifil sydd ag iechyd gwael iawn (14.2%), o'i gymharu â'r rhai sydd wedi ysgaru, neu mae eu partneriaeth sifil wedi'i diddymu (11.9%) a'r rhai sy'n briod neu mewn partneriaeth sifil gofrestredig (6.8%). Mae'r rhai nad ydynt erioed wedi bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil, yn fwy tebygol o gael iechyd da iawn (82.6%) o'i gymharu â phob statws priodasol arall. Gall y ffigurau a drafodwyd uchod fod yn gysylltiedig ag oedran, mae pobl sy'n weddw neu'n goroesi eu partner partneriaeth sifil yn tueddu i fod yn hŷn ac felly'n fwy tebygol o brofi iechyd gwael. Tra bod y rhai nad ydynt erioed wedi bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil yn debygol o fod yn iau.

# 7.0 Ethnigrwydd

Roedd bron poblogaeth gyfan Ceredigion (96.2% / 68,776) yn uniaethu fel 'Gwyn', sy'n uwch na chyfartaledd Cymru (93.8%). 'Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Gymry Asiaidd' oedd yr ail grŵp ethnig mwyaf cyffredin (1.5%), ac yna 'grwpiau ethnig cymysg neu amlethnig' (1.2%), 'Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd' (0.5%) a 'Grŵp Ethnig Arall' (0.5%), gweler Tabl 2 isod.

**Tabl 2: Grwpiau ethnig eang yng Ngheredigion - 2021**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Gwyn | 68,776 | 96.2% |
| Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig | 1,096 | 1.5% |
| Grwpiau ethnig Cymysg neu Lluosog | 867 | 1.2% |
| Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd | 366 | 0.5% |
| Grŵp ethnig arall | 368 | 0.5% |

**Efallai na fydd y ffigurau'n adio oherwydd talgrynnu*
*Ffynhonnell: SYG (2022) - Cyfrifiad 2021 (TS022)*[12]


[12] SYG (2022). TS022 – Grŵp ethnig. Ar gael yn: [TS022 - Ethnic group - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics]

Ers 2011, bu newid bach yn y cyfansoddiad ethnig yng Ngheredigion. Gostyngodd canran y bobl sy'n huniaethu fel 'Gwyn' 0.5 pwynt canran, tra bu cynnydd bach yn y grwpiau ethnig canlynol: ‘cymysg neu amlethnig’ (+0.2 pwynt canran), ‘Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd’ (+0.1 pwynt canran), ac ‘Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig’ (0.1 pwynt canran).  Gwelwyd tueddiadau tebyg ledled Cymru; fodd bynnag, roedd y newidiadau'n fwy amlwg, gyda’r ganran o drigolion yn uniaethu fel Gwyn yn gostwng yn fwy sylweddol (wedi gostwng 1.8 pwynt canran ers 2011), o'i gymharu â Cheredigion (-0.5 pwynt canran).

## 7.1 Statws Economaidd yn ôl Ethnigrwydd

Mae Ffigur 9 isod yn amlinellu gweithgarwch economaidd yn ôl ethnigrwydd, trwy ddadansoddi'r cyfrannau *o fewn* pob grŵp ethnig. Mae'r data yn datgelu gwahaniaethau mewn statws gweithgarwch economaidd yn ôl ethnigrwydd. Yn benodol, mae grwpiau '*Du/Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd*' a grwpiau '*Cymysg neu amlethnig*' yn wynebu cyfraddau diweithdra uwch, gyda'r olaf yn profi’r gyfradd gyflogaeth isaf.

**Ffigur 9: Statws gweithgarwch economaidd yn ôl grwpiau ethnig categori uchel – Ceredigion, 2021.**




*Ffynhonnell: SYG (2023) – Cyfrifiad 2021 (RM018)*[13]

Y grŵp ethnig '*Gwyn*' sydd â'r gyfradd ddiweithdra isaf ar draws yr holl grwpiau ethnig (2.9%/1,737), sy'n adlewyrchu'r sefydlogrwydd mwyaf.  Ar y llaw arall, y grŵp ethnig '*Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd ac Affricanaidd*' sydd â'r gyfradd gyflogaeth uchaf (56.8%/162), ond hefyd y gyfradd ddiweithdra uchaf (8.1%/23). Tra bod y grwpiau ethnig '*Cymysg neu amlethnig* â’r gyfradd gyflogaeth isaf (43.2%/255).

[13] SYG (2023). RM018 - Statws gweithgaredd economaidd yn ôl grŵp ethnig. Ar gael yn: [Nomis - Query Tool - RM018 - Economic activity status by ethnic group]

Gellir priodoli'r cyfraddau cyflogaeth uchel ymhlith y grŵp ethnig Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd i'r ffaith bod y boblogaeth hon yn hynod gymwys (gweler adran 7.2) ac yn iau ar gyfartaledd, sy'n arwain at lai o unigolion economaidd anweithgar (e.e., pobl sydd wedi ymddeol). Fodd bynnag, gallai eu cyfradd ddiweithdra uchel, er mai nhw yw'r mwyaf cymwys, awgrymu rhwystrau strwythurol yn y farchnad lafur, megis anghysondeb swyddi neu eu bod yn orgymwys. Byddai angen archwilio ymhellach i ddeall hyn yn well.

Mae dadansoddi'r data ymhellach yn helpu i esbonio pam mai'r *grwpiau ethnig cymysg neu amlethnig* sy'n arddangos y gyfradd gyflogaeth isaf. Ar draws pob grŵp ethnig yng Ngheredigion, y *grwpiau ethnig Cymysg neu amlethnig* sydd â'r gyfran uchaf o drigolion economaidd anweithgar (1.9 pwynt canran yn uwch na chyfartaledd y Sir). Mae hyn yn sgil y gyfran uwch o fyfyrwyr economaidd anweithgar o fewn y *grwpiau ethnig Cymysg neu amlethnig* (58.2%) o'i gymharu â chyfartaledd y sir (20.9%). Mae ffactorau eraill yn cynnwys cyfran ychydig yn uwch o'r *grwpiau ethnig Cymysg neu amlethnig* sy'n gofalu am y cartref neu'r teulu (10.2% o'i gymharu â 7.2% yng Ngheredigion yn gyffredinol). Gallai'r olaf adlewyrchu'r gwahaniaethau o ran agweddau a disgwyliadau diwylliannol (e.e., disgwylir i fenywod beidio â chymryd rhan yn y farchnad lafur ond aros gartref fel y gofalwr sylfaenol). [14]


Gall nifer o ffactorau gyfrannu at y gwahaniaethau hyn, a byddai angen ymchwil bellach i ddeall yr achosion sylfaenol er mwyn mireinio'r casgliadau hyn.

## 7.2 Cymwysterau yn ôl Ethnigrwydd

Mae gwahaniaethau hefyd ymhlith grwpiau ethnig o ran cyrhaeddiad addysgol. Y bobl yn y grŵp ethnig '*Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd*' oedd fwyaf tebygol o nodi eu bod â chymhwyster ar Lefel 4 neu uwch (58.0%), tra bod y rhai yn y grŵp ethnig 'Gwyn' lleiaf tebygol (34.8%), fodd bynnag, mae hyn yn dal i fod yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y grŵp ethnig hwn (31.0%). Y bobl yn y grŵp ethnig *'Arall'* oedd mwyaf tebygol o beidio â chael unrhyw gymwysterau (27.3%), tra'r rhai yn y grwpiau *'Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Affricanaidd neu Garibïaidd'* (4.2%) a'r '*Cymysg neu amlethnig*' (9.6%) oedd lleiaf tebygol, sy'n sylweddol is na chyfartaledd cenedlaethol y grwpiau hyn sef 14.5% a 15.2% yn y drefn honno (gweler Ffigur 10 ar y dudalen nesaf).

[14] Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2023). Anweithgarwch economaidd. Ar gael yn: [Anweithgarwch economaidd - GOV.UK Ffeithiau a ffigurau ethnigrwydd]

**Ffigur 10: Lefel uchaf o gymhwyster yn ôl grŵp ethnig – Ceredigion, 2021.**





*Ffynhonnell: SYG (2023) – 2021 Cyfrifiad (RM049)*[15]

## 7.3 Iechyd yn ôl Ethnigrwydd

Mae'r dadansoddiad hwn yn archwilio tueddiadau mewn statws iechyd hunangofnodedig yn ôl grŵp ethnig ac yn amlinellu'r ganran o unigolion sy'n nodi "nad ydynt mewn Iechyd da". Yn gyffredinol, mae lleiafrifoedd ethnig yn nodi canlyniadau iechyd gwell o'i gymharu â'r grŵp ethnig Gwyn, gyda chanrannau yn is na chyfartaledd Ceredigion (21.3%) a'r cyfartaledd cenedlaethol (21.4%), gweler Ffigur 11 isod.

**Ffigur 11: Cyfran y trigolion yn ôl grŵp ethnig yn nodi 'ddim mewn iechyd da', Ceredigion – 2021.**




*Ffynhonnell: SYG (2023) – Cyfrifiad 2021 (RM043)*[16]

---

[15] SYG (2023). Lefel uchaf o gymhwyster yn ôl grŵp ethnig. Ar gael yn: [Nomis - Query Tool - RM049 - Highest level of qualification by ethnic group]

* ***Lefel 1 i 3:*** *TGAU; Bagloriaeth Cymru Sylfaen a Chanolradd, neu gymwysterau cyfatebol; Prentisiaethau; 2+ Safon Uwch, Bagloriaeth Uwch, neu gymwysterau cyfwerth.* ***Lefel 4 neu uwch****: Tystysgrif Genedlaethol Uwch, Diploma Cenedlaethol Uwch, gradd baglor, neu gymwysterau ôl-raddedig. Cymwysterau eraill: o lefel anhysbys.*

[16] SYG (2023). RM018 – Iechyd Cyffredinol yn ôl oedran yn ôl grŵp ethnig. Ar gael yn: [Nomis - Query Tool - RM043 - General health by ethnic group by age]


Mae dadansoddiad pellach yn tynnu sylw at y ffaith bod y gwahaniaethau mewn statws iechyd hunangofnodedig yn cael eu dylanwadu'n rhannol gan ddosbarthiad oedran. Mae proffiliau oedran iau ymhlith lleiafrifoedd ethnig yn helpu i esbonio eu canlyniadau iechyd cymharol well. Er enghraifft, mae 48% o'r grŵp ethnig Gwyn yn 50+ oed, tra bod rhwng 17-19% o'r grwpiau *Asiaidd, Du, Cymysg* ac ethnig *arall* dros 50 oed.

Mae amrywiaeth sylweddol o fewn y grŵp *Gwyn*. Y grŵp '*Gwyn: Gwyddelig'* sydd â'r canlyniadau iechyd gwaethaf a gofnodwyd, gyda 116 o drigolion yn nodi nad ydynt mewn iechyd da, sy'n cyfateb i 27.0% o gyfanswm y boblogaeth Wyddelig (sy'n llawer uwch na chyfartaledd y sir). Tra bod y grwpiau *Sipsiwn neu'r Teithiwr Gwyddelig, Roma neu Gwyn Arall* yn dangos cyfran is sy'n adrodd iechyd gwael (14.0%/ 374 nad ydynt mewn iechyd da). Unwaith eto, mae dosbarthiad oedran yn ffactor yn y canlyniadau iechyd gwael a adroddwyd, gan fod tua 59% o'r boblogaeth sy'n Wyddelod Gwyn dros 50 oed, o'i gymharu â 22% o'r boblogaeth *Sipsiwn, Teithwyr Gwyddelig, Roma a Gwyn arall*.

## 7.4 Deiliadaeth yn ôl Ethnigrwydd

O fewn grwpiau ethnig yng Ngheredigion mae gwahaniaethau nodedig o ran cyfansoddiad deiliadaeth sy'n tynnu sylw at wahaniaethau mewn perchnogaeth tai, rhentu cymdeithasol a rhentu preifat (cyfeiriwch at Ffigur 12 isod). Y grŵp ethnig Gwyn (30,107) sydd â'r gyfran isaf o rentwyr preifat (20.0%/ 6,012) a'r gyfran uchaf o berchnogion tai (69.5%/ 20,931). Mewn cyferbyniad, y grŵp ethnig *Arall* (109 o breswylwyr) sydd â'r gyfran uchaf o rentwyr preifat (56.9%/ 62) a llawer llai o berchnogion tai (33.0%/15). Mae'r grŵp *Cymysg* neu *Amlethnig* (218 o drigolion) yn sefyll allan gyda'r gyfran uchaf o rentwyr tai cymdeithasol (19.7%/ 84), tra bod y grŵp *Asiaidd*, *Asiaidd Prydeinig* neu *Asiaidd Cymreig* (320) â'r gyfran isaf o rentwyr tai cymdeithasol (3.8%/ 12).

**Ffigur 12: Cyfansoddiad deiliadaeth tai o fewn grwpiau ethnig: cyfrannau perchentyaeth, rhentu cymdeithasol a rhentu preifat – Ceredigion, 2021.**




*Ffynhonnell: SYG (2023) – Cyfrifiad 2021 (RM134)*[17]


[17] SYG (2023). RM134 - Daliadaeth yn ôl grŵp ethnig - Personau Cyfeirio Aelwydydd. Ar gael yn: Nomis - Query Tool - RM134 - Tenure by ethnic group - Household Reference Persons

Fel yr adlewyrchir yn Adran 7.3, gall y poblogaethau iau o fewn y grwpiau lleiafrif ethnig esbonio'n rhannol rai o'r patrymau a amlinellwyd. Er enghraifft, dibyniaeth uwch ar rentu preifat ymhlith y grwpiau ethnig hyn, gan fod unigolion a theuluoedd iau yn llai tebygol o fod wedi cronni'r adnoddau ariannol angenrheidiol i fod yn berchen ar eu cartref eu hunain. Ar y llaw arall, gallai'r ddibyniaeth uwch ar rentu cymdeithasol ar gyfer y grwpiau *ethnig cymysg neu amlethnig* adlewyrchu cyfuniad o boblogaethau iau gydag incwm is ac, o bosibl, rhwystrau economaidd-gymdeithasol i rentu preifat neu berchnogaeth tai.

## 8.0 Crefydd neu Gred

Y grefydd fwyaf cyffredin yng Ngheredigion yw Cristnogaeth, gyda bron i hanner (46.7%) o'r boblogaeth yn nodi hyn. Yr ail grefydd neu gred fwyaf cyffredin oedd 'Dim crefydd' (43.0%). Roedd crefyddau *eraill* yn cynrychioli cyfran fach iawn, yr uchaf oedd 'Crefydd arall' gyda 0.9%, a Mwslimiaid ychydig y tu ôl i hyn gyda 0.7% (gweler ffigur 13).

**Ffigur 13: Canran poblogaeth Ceredigion yn ôl Crefydd – 2021.**




*Ffynhonnell: SYG (2022) - Cyfrifiad 2021*[18]


Ers y Cyfrifiad blaenorol yn 2011, mae canran y bobl nad oeddent yn gysylltiedig ag unrhyw grefydd benodol wedi cynyddu o 12.3 pwynt canran o 30.7%. Yn ogystal, mae canran y rhai a ddywedodd eu bod yn Gristnogion wedi gostwng o 11.2 pwynt canran o 57.9%. Mae canlyniadau'r crefyddau sy'n weddill (Bwdhaeth, Hindŵaeth, Iddewiaeth, Mwslimaeth, Sikhiaeth ac eraill) wedi aros yn eithaf sefydlog ers 2011.

[18] SYG (2021) TS030 Crefydd. Ar gael yn:
https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2049&geog=lacu2021

## 8.1 Gweithgaredd Economaidd yn ôl Crefydd

O ran statws gweithgarwch economaidd gwahanol grefyddau, mae'r ganran uchaf o bobl sydd wedi ymddeol yng Ngheredigion yn Gristnogion (38.9%), i'r gwrthwyneb, mae'r ganran isaf yn Fwslimiaid (3.0%), sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd cyffredinol o bobl sydd wedi ymddeol yng Ngheredigion 27.7%. Roedd canran uwch o bobl o 'Grefydd Arall' a oedd yn economaidd anweithgar oherwydd anabledd neu salwch hirdymor (11.0%), o'i gymharu â phob crefydd arall, gyda'r gymuned Iddewig â'r ail ganran uchaf (8.8%). Dim ond 0.5% o'r gymuned Fwslimaidd a ddywedodd eu bod yn economaidd anweithgar oherwydd anabledd neu salwch hirdymor, a oedd 3.9 pwynt canran yn is na chyfartaledd Ceredigion (4.4%). Roedd pob crefydd arall a'r rhai a ddewisodd 'dim crefydd' yn fwy tebygol o fod yn fyfyrwyr economaidd anweithgar, (rhwng 12-22%), o'i gymharu â Christnogion (4.9%).

**Figure 14: Economic inactivity Status by Religion, Ceredigion – 2021.**




*Ffynhonnell: SYG (2023) - Cyfrifiad 2021*[19]

## 8.2 Anabledd yn ôl Crefydd

Yn gyffredinol, mae canran y bobl sy’n anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb yn unol â chyfartaledd Ceredigion ar draws y rhan fwyaf o’r grwpiau crefyddol. Fodd bynnag, mae anghydraddoldebau ymhlith y cymunedau Iddewig ac ‘Eraill’, lle mae 44.2% a 43.6% o’u poblogaeth yn anabl, yn y drefn honno. Mae hyn tua 22 pwynt canran yn uwch na chyfartaledd y sir (21.9%). Ar y llaw arall, y gymuned Fwslimaidd a welodd y ganran isaf o bobl anabl, sef dim ond 8.0% — a oedd 5.9 pwynt canran yn is na’r ail ganran isaf (13.9% o’r boblogaeth Hindŵaidd).

[19] SYG (2021) RM023 Statws Gweithgarwch Economaidd yn ôl Crefydd. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2123&geog=lacu2021

Ar draws Cymru, mae patrymau tebyg yn ymddangos, gyda mwy o bobl anabl ymhlith y gymuned Iddewig a'r grŵp 'Crefydd arall', sef 30.4% a 43.7% yn y drefn honno. Yr hyn sy'n bwysig i'w nodi yw, er bod canran y bobl anabl yn y categori 'Crefydd arall' yng Ngheredigion yn unol â'r cyfartaledd cenedlaethol, mae canran y gymuned Iddewig anabl yng Ngheredigion yn 13.8 pwynt canran yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.


## 8.3 Cymwysterau yn ôl Crefydd

Yng Ngheredigion, y rhai sy'n Gristnogion sydd â'r ganran uchaf o bobl heb unrhyw gymwysterau (18.1%), gyda'r rhai sy'n Fwslimiaid yn agos iawn ar eu hôl (17.7%) — mae'r ddwy ganran yn uwch na chyfartaledd Ceredigion (14.7%). Y boblogaeth Hindŵaidd a'r boblogaeth Sikh sydd â'r ganran isaf o'r rhai heb unrhyw gymwysterau (y ddau gyda 3.1%). O ran y rhai sydd â'r lefel uchaf o gymwysterau (lefel 4 ac uwch), mae canran llawer uwch o'r rhai sy'n uniaethu fel Hindŵaidd (67.2%) neu Fwdhaidd (56.6%) yn cyflawni'r cymwysterau hyn. Y gymuned Sikh oedd â'r ganran isaf o bobl yn cyflawni cymwysterau lefel 4 ac uwch (34.4%) er mai dim ond 0.9 pwynt canran y tu ôl i'r cyfartaledd ledled Ceredigion (35.3%) oedd hyn. Gwelir anghydraddoldebau eraill rhwng grwpiau crefyddol a'r rhai sy'n cyflawni cymwysterau lefel 3; mae 11.6% o'r boblogaeth Fwdhaidd wedi cyflawni cymwysterau lefel 3, o'i gymharu â 46.9% o'r gymuned Sikh.

## 8.4 Gradd Deiliadaeth yn ôl Crefydd

Mae canran yr aelwydydd sydd wedi cael eu gorlenwi (sgôr gyfanheddu ystafelloedd gwely: -1 neu lai)* yn amrywio rhwng grwpiau crefyddol yng Ngheredigion. Mae'r ganran uchaf o aelwydydd gorlawn i'w gweld o fewn y gymuned Fwslimaidd (11.4%), ac yna'r gymuned Hindŵaidd (10.1%) a'r gymuned Sikh (7.4%). Fel y dangosir ar y siart isod, mae pob grŵp crefyddol arall a'r rhai a ddywedodd, 'dim crefydd', yn gweld llai na 5% o'u cartrefi'n orlawn. Er enghraifft, dim ond 1.2% o aelwydydd Iddewig sy'n orlawn ac 1.9% o aelwydydd Cristnogol (Ffigur 15).

**Ffigur 15: Aelwydydd Gorlawn yn ôl Crefydd, Ceredigion – 2021.**




*Ffynhonnell: SYG (2023) - Cyfrifiad 2021*[20]

Gellid priodoli'r tebygolrwydd uwch o orlenwi ymhlith aelwydydd Mwslimaidd, Hindŵaidd a Sikh i sawl rheswm. Traddodiadau diwylliannol, anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol a rhwystrau yn y farchnad dai yw rhai enghreifftiau. Byddai angen ymchwil bellach i ddeall y tueddiad hwn yn well er mwyn targedu polisïau'n fwy effeithiol a mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau rhwng y gwahanol gymunedau.

## 9.0 Rhyw

Yn 2021, roedd 51.5% (36,512) o boblogaeth Ceredigion yn fenywod a 48.9% (34,960) yn ddynion. Mae'r rhaniad hwn yn debyg iawn i'r duedd genedlaethol. Ers Cyfrifiad 2011, cynyddodd canran y menywod 0.9 pwynt canran, tra bod canran y dynion wedi gostwng 0.9 pwynt canran.

### 9.1 Statws Economaidd yn ôl Crefydd

Mae'r data'n dangos gwahaniaethau rhwng y rhywiau mewn statws gweithgarwch economaidd ledled Ceredigion, sydd hefyd i'w gweld ledled Cymru.

Fel y dangosir yn Ffigur 16 isod, mae menywod yn llai tebygol o fod mewn cyflogaeth (46.0%) o'i gymharu â dynion (52.3%) yng Ngheredigion. Ar y llaw arall, mae cyfran ychydig yn uwch o ddynion (3.3%) yn ddi-waith ond yn chwilio am waith yn ystod y mis diwethaf (economaidd weithgar: di-waith),

---


*A yw llety aelwyd yn orlawn, yn ddelfrydol wedi'i feddiannu neu'n cael ei danfeddiannu. Cyfrifir hyn drwy gymharu nifer yr ystafelloedd gwely sydd eu hangen ar yr aelwyd â nifer yr ystafelloedd gwely sydd ar gael. Gradd deiliadaeth o:

- -1 neu lai yn awgrymu bod gan lety aelwyd lai o ystafelloedd gwely nag sydd angen (gorlawn)
- +1 neu fwy yn awgrymu bod gan lety aelwyd fwy o ystafelloedd gwely na'r hyn sy'n ofynnol (tan-feddiannu)
- 0 yn awgrymu bod gan lety aelwyd nifer delfrydol o ystafelloedd gwely

[20] SYG (2021) RM106 Graddfa Deiliadaeth yn ôl Crefydd. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2206&geog=lacu2021

o'i gymharu â menywod (2.7%). Wrth archwilio anweithgarwch economaidd, mae menywod (51.3%) yn fwy tebygol o fod yn anweithgar yn economaidd o'i gymharu â dynion (44.4%).

**Ffigur 16: Statws Gweithgaredd Economaidd (preswylwyr 16+ oed) yn ôl Rhyw – Ceredigion (2021)**




*Ffynhonnell: SYG, 2021 Cyfrifiad*[21]

Mae dadansoddi'r data yn tynnu sylw at y rhesymau y tu ôl i gyfradd uwch o anweithgarwch economaidd ymhlith menywod. Mae cyfran uwch o fenywod (4.6%) yn gofalu am y cartref neu'r teulu, o'i gymharu â 1.3% o ddynion. Hefyd, mae cyfran ychydig yn uwch o fenywod wedi ymddeol (25.5%) o'i gymharu â dynion (22.0%). Mae hyn yn awgrymu y gallai rhwystrau ychwanegol, sy'n ymwneud â chyfrifoldebau gofalu fod yn cyfyngu ar gyfranogiad mewn gwaith â thâl i fenywod. Gallai'r gyfradd ddiweithdra uwch i ddynion fod oherwydd eu bod yn cyfranogi'n fwy yn y gweithlu, yn ogystal ag argaeledd swyddi/dewisiadau rhywedd mewn rhai sectorau, a mwy o fenywod sy'n ymgymryd â rolau gofal neu'n ymddeol yn gynnar ac felly nid ydynt yn cael eu cyfrif fel unigolion sy'n ddi-waith.


## 9.2 Deiliadaeth yn ôl Rhyw

Mae dadansoddi'r mathau o ddeiliadaeth yn ôl rhyw yn dangos y gall rhyw ddylanwadu ar ddewis tai i ryw raddau, fel y dangosir yn Ffigur 17 isod.

Mae menywod yn fwy tebygol o fod yn berchen ar eu cartrefi'n llwyr (48.3%), yn rhentu'n breifat neu'n byw heb dalu rhent (21.1%), a rhentu'n gymdeithasol (13.4%), tra bod dynion yn fwy tebygol o fod yn berchen gyda morgais neu'n berchen ar y cyd (23.7%).

[21] SYG (2024). Statws gweithgaredd economaidd a rhyw. Ar gael yn: Economic activity status and sex - Office for National Statistics.

**Ffigur 17: Daliadaeth yn ôl Rhyw (cyfeirnod person cartref) – Ceredigion (2021)**




*Ffynhonnell: SYG, 2021 Cyfrifiad*[22]

Er nad yw'r gwahaniaethau yn y dosbarthiad yn ôl rhyw ar draws y mathau o ddeiliadaeth yn enfawr, gallent awgrymu ffactorau economaidd-gymdeithasol sylfaenol sy'n rhyngweithio â rhyw (e.e, gwahaniaethau o ran oedran ac incwm). Y gwahaniaeth mwyaf rhwng rhywiau o ran deiliadaeth yw bod yn berchen gyda morgais neu fenthyciad neu berchnogaeth a rennir (gwahaniaeth o 6.5 pwynt canran). Mae hyn yn adlewyrchu tuedd genedlaethol ehangach ac efallai ei fod wedi'i ddylanwadu gan ddisgwyliad oes hirach menywod, neu ddod â'r morgais i ben yn gynnar neu newidiadau yn y gweithlu (e.e., gall ymddeol yn gynharach olygu eu bod yn dymuno setlo'r morgais yn gynharach).

## 9.3 Cymwysterau yn ôl Rhyw


Tynnodd Cyfrifiad 2021 sylw at barhad o duedd gadarnhaol mewn cyrhaeddiad o ran cymwysterau. Ceredigion oedd â'r gyfran isaf o drigolion (16 oed a hŷn) heb unrhyw gymwysterau (14.7%) ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol, sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol (19.9%). Nid yw hyn yn syndod o ystyried presenoldeb dwy Brifysgol (Prifysgol Aberystwyth a Champws Llanbedr Pont Steffan), y pwyslais hirsefydlog ar addysg a diwylliant Cymreig, ac ysgolion cynradd ac uwchradd o ansawdd uchel (yn dwyn sgôr arolygu cryf gan Estyn).

Mae dadansoddi'r data yn ôl rhyw yn tynnu sylw at rai gwahaniaethau rhwng y rhywiau, gyda menywod yn fwy tebygol na dynion o gyflawni cymwysterau uwch, a dynion yn fwy tebygol o ennill cymwysterau 'eraill' (Ffigur 18). Roedd llai na thraean (32.2%) o ddynion â chymhwyster gradd neu uwch (Cymhwyster Lefel 4), o'i gymharu â 38.2% o fenywod. Ar y llaw arall, enillodd 1 dyn o 10 (10.8%) 'gymwysterau eraill', megis prentisiaethau, cymwysterau galwedigaethol neu rai sy'n ymwneud â'r gwaith, o'i gymharu â 4.8%

[22] SYG (2024). Set Data Cwstwm – Rhyw a deiliadaeth yr aelwyd. Ar gael yn: [Sex and tenure of household - Office for National Statistics]

o fenywod. Mae'r duedd hon yn cyd-fynd yn fras â'r duedd genedlaethol; fodd bynnag, mae'r gwahaniaeth rhwng y rhywiau yn ehangach yng Ngheredigion, sy'n awgrymu y gallai ffactorau lleol fod yn dwysáu'r gwahaniaeth hwn.

**Ffigur 18: Lefel uchaf o gymwysterau (16+ oed) yn ôl Rhyw – Ceredigion (Cyfrifiad 2021)**




*Ffynhonnell: SYG, 2021 Cyfrifiad.* [23]


Gallai'r gwahaniaeth mewn cyrhaeddiad cymwysterau rhwng rhywiau fod oherwydd sawl ffactor, megis dewisiadau gwahanol o ran gyrfa, sy'n gofyn am gymwysterau penodol (e.e., mae menywod yn aml yn dominyddu meysydd fel gwasanaethau cymdeithasol, addysg a rolau gweinyddol, tra bo dynion yn dewis cymryd rhan mewn meysydd fel adeiladu, gweithgynhyrchu a chrefftau medrus), argaeledd swyddi, normau diwylliannol a chymdeithasol neu ddewisiadau economaidd ac addysgol.

## 10.0 Cyfeiriadedd Rhywiol

Yng Ngheredigion, dywedodd y mwyafrif o'r boblogaeth eu bod yn 'Syth neu Heterorywiol' (84.7%), sy'n is na'r cyfartaledd ledled Cymru (89.4%). Roedd canran yr unigolion hoyw neu lesbiaidd yng Ngheredigion yn unol â'r cyfartaledd cenedlaethol (1.5%). Roedd cyfran uwch o unigolion 'deurywiol' (2.6%) ac unigolion yn nodi fel 'pob cyfeiriadedd rhywiol arall' (0.7%), o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol (1.2% a 0.1% yn y drefn honno). Cyfrifiad 2021 oedd y cyntaf i ofyn i bobl 16 oed a hŷn am eu cyfeiriadedd rhywiol, felly nid oes unrhyw ddata tebyg o'r Cyfrifiad blaenorol.

[23] SYG (2024). Set Data Cwstwm – Rhyw a lefel uchaf o gymwysterau. Ar gael yn: Highest level of qualification and sex - Office for National Statistics.

**Ffigur 19: Canran y boblogaeth yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol.**




*Ffynhonnell: SYG (2022) - Cyfrifiad 2021*[24]

## 10.1 Oedran yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol

Roedd y cwestiwn am gyfeiriadedd rhywiol yng Nghyfrifiad 2021 wedi'i anelu at bobl 16 oed a hŷn, felly nid oes data ar gyfer y rhai o dan yr oedran hwn. Nododd ychydig o dan dri chwarter y rhai rhwng 16 a 24 oed yng Ngheredigion eu bod yn syth neu'n heterorywiol (70.4%) ac roedd hyn 10 pwynt canran yn is na'r rhai rhwng 45 a 54 oed, a oedd â'r ganran uchaf o'r rhai sy'n nodi eu bod yn syth neu'n heterorywiol (89.4%). Yn gyfatebol, roedd canran y rhai rhwng 16 a 24 oed sy'n nodi eu bod yn hoyw neu'n lesbiaidd (3.0%) 10 gwaith yn fwy na'r rhai 75 oed a throsodd (0.3%). Roedd canran y rhai 16 i 24 oed a nododd eu bod yn ddeurywiol (10.3%) yn uwch na'r holl bobl ddeurywiol dros 35 oed (0.6%).


## 10.2 Anabledd yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol

Yn ôl Cyfrifiad 2021, y rhai sy'n nodi eu bod yn ddeurywiol ac yn perthyn i 'bob cyfeiriadedd rhywiol arall' yw'r mwyaf tebygol o fod ag anabledd o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, sef 39.2% a 45.8% yn y drefn honno, o'i gymharu â chyfartaledd Ceredigion o 24.6%. Roedd canran y bobl anabl a nododd eu bod yn syth neu'n heterorywiol (23.5%) yn is na chyfartaledd Ceredigion a 22.3 pwynt canran yn is na chanran y bobl anabl deurywiol. Mae'n ddarlun tebyg iawn yng Ngheredigion ac yn genedlaethol, fel y gellir ei weld yn Ffigur 20 isod.

---

[24] SYG (2021) TS077 Cyfeiriadedd Rhywiol. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2060&geog=lacu2021

**Ffigur 20: Poblogaeth anabl yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol, Ceredigion a Chymru – 2021.**




Ffynhonnell: SYG (2023) - Cyfrifiad 2021[25]

## 10.3 Tai yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol

Nid yw'n syndod, o ystyried strwythur oedran ein poblogaeth hoyw, lesbiaidd, ddeurywiol a'r rhai o bob cyfeiriadedd rhywiol arall, mai'r grŵp poblogaeth hwn yw'r lleiaf tebygol o fod yn berchen ar eu heiddo eu hunain yn llwyr. Dim ond 29.4% o'r rhai sy'n ddeurywiol sy'n berchen ar eu heiddo (yn llwyr neu gyda morgais neu fenthyciad), o'i gymharu â bron i dri chwarter y boblogaeth syth neu heterorywiol (72.1%). Yn yr un modd, mae 70.6% o'r boblogaeth ddeurywiol yn rhentu eu heiddo yng Ngheredigion, o'i gymharu â 27.9% o'r boblogaeth syth neu heterorywiol. Gwyddom fod oedran yn gallu dylanwadu ar ddeiliadaeth, bydd pobl hŷn wedi cael mwy o amser i gronni cyfoeth er mwyn prynu eiddo'n llwyr neu gyda morgais neu fenthyciad.

## 10.4 Gweithgaredd Economaidd yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol

O ran gweithgarwch economaidd gwahanol gyfeiriadedd rhywiol yng Ngheredigion, gwelwn dueddiadau tebyg i'r hyn a welwyd yn Adran 5.2 ar Weithgarwch Economaidd yn ôl Hunaniaeth Rhywedd, er y dylid nodi nad yw'r data sydd ar gael mor fanwl ar gyfer cyfeiriadedd rhywiol. Myfyrwyr economaidd anweithgar sydd lleiaf tebygol o fod yn syth neu'n heterorywiol (64.4%), gyda 3.3% yn hoyw neu'n lesbiaidd a 10.3% yn ddeurywiol. Mae 86.1% o bobl sydd yn economaidd anweithgar ond nad ydynt yn fyfyrwyr yn syth neu'n heterorywiol, tra bod 0.8% yn hoyw neu'n lesbiaidd a 0.8% yn ddeurywiol.

[25] SYG (2021) RM123 Anabledd trwy Gyfeiriadedd Rhywiol. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2223&geog=lacu2021

## 10.5 Cymwysterau yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol

Wrth ystyried gweithgarwch economaidd gwahanol gyfeiriadedd rhywiol yng Ngheredigion, nid yw'n syndod bod gan y rhai sy'n hoyw neu'n lesbiaidd (5.5%), yn ddeurywiol (3.3%) a phob cyfeiriadedd rhywiol arall (1.9%) ganran is o bobl heb unrhyw gymwysterau o'i gymharu â'r rhai sy'n syth neu'n heterorywiol (14.7%). Mae dros ddwbl y ganran o bobl ddeurywiol (50.0%) a'r rhai o bob cyfeiriadedd rhywiol arall (50.9%) wedi cyflawni cymwysterau Lefel 3 o'i gymharu â'r rhai sy'n syth neu'n heterorywiol (19.8%).

# 11.0 Cyfeirnodau


Swyddfa Ystadegau Gwladol (2023). Statws gweithgarwch economaidd yn ôl oedran, yn ôl rhyw. Ar gael yma: [Statws gweithgarwch economaidd yn ôl oedran, yn ôl rhyw - Swyddfa Ystadegau Gwladol]

SYG (2021) Anabledd yn ôl Daliadaeth. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/datasets/create

SYG (2021) RM023 Statws Gweithgarwch Economaidd yn ôl Crefydd. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2123&geog=lacu2021

SYG (2021) RM036 Hunaniaeth Rhyw yn ôl Anabledd. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2136&geog=lacu2021

SYG (2021) RM106 Graddfa Deiliadaeth yn ôl Crefydd. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2206&geog=lacu2021

SYG (2021) RM123 Anabledd trwy Gyfeiriadedd Rhywiol. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2223&geog=lacu2021

SYG (2021) TS002 Statws partneriaeth gyfreithiol. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2022&geog=lacu2021

SYG (2021) TS030 Crefydd. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2049&geog=lacu2021

SYG (2021) TS038 Anabledd. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2056&geog=lacu2021

SYG (2021) TS077 Cyfeiriadedd Rhywiol. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2060&geog=lacu2021

SYG (2021) TS078 Hunaniaeth Rhyw. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/query/construct/summary.asp?mode=construct&version=0&dataset=2061&geog=lacu2021

SYG (2022). TS022 – Grŵp ethnig. Ar gael yn: [TS022 - Ethnic group - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics]

SYG (2023). Lefel uchaf o gymhwyster yn ôl grŵp ethnig. Ar gael yn: [Nomis - Query Tool - RM049 - Highest level of qualification by ethnic group]

SYG (2023). RM018 – Iechyd Cyffredinol yn ôl oedran yn ôl grŵp ethnig. Ar gael yn: Nomis - Query Tool

- RM043 - General health by ethnic group by age

SYG (2023). RM018 - Statws gweithgaredd economaidd yn ôl grŵp ethnig. Ar gael yn: Nomis - Query Tool - RM018 - Economic activity status by ethnic group

SYG (2023). RM134 - Daliadaeth yn ôl grŵp ethnig - Personau Cyfeirio Aelwydydd. Ar gael yn: Nomis - Query Tool - RM134 - Tenure by ethnic group - Household Reference Persons

SYG (2024). 2021 Cyfrifiad, Set Data Cwstwm – Anabledd yn ôl oedran. Ar gael yn: Custom dataset - Office for National Statistics

SYG (2024). 2021 Cyfrifiad: Daliadaeth yn ôl Oedran – Personau Cyfeirio Aelwydydd (HRP). Ar gael yn: Tenure by age - Household Reference Persons - Office for National Statistics

SYG (2024). Set Data Cwstwm – Rhyw a deiliadaeth yr aelwyd. Ar gael yn: Sex and tenure of household - Office for National Statistics

SYG (2024). Set Data Cwstwm – Rhyw a lefel uchaf o gymwysterau. Ar gael yn: Highest level of qualification and sex - Office for National Statistics.

SYG (2024). Statws gweithgaredd economaidd a rhyw. Ar gael yn: Economic activity status and sex - Office for National Statistics.

Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2023). Anweithgarwch economaidd. Ar gael yn: Anweithgarwch economaidd - GOV.UK Ffeithiau a ffigurau ethnigrwydd